CYNNWYS

Llenwi Tudalennau'r Cynulliad	WAMN1
Manylion am y swydd	WAMN1
Incwm o'r swydd	WAMN1
■ ***Arian***	WAMN1
● Taliadau arian	WAMN2
● Treth a ddidynnwyd	WAMN2
■ ***Buddiannau, treuliau a thaliadau mantoli***	WAMN2
● Llety heb gynnwys Lwfans Costau Byw Ychwanegol	WAMN2
● Lwfansau milltiroedd	WAMN2
● Lwfans Costau Swyddfa: eitemau digyfalaf	WAMN3
● Lwfans Costau Swyddfa: eitemau cyfalaf	WAMN3
● Lwfans Arweinwyr Plaid	WAMN3
● Ad-daliadau arian parod eraill	WAMN3
● Pob buddiant arall	WAMN3
● Taliadau mantoli	WAMN4
■ ***Cyfandaliadau a thaliadau iawndal neu fuddiannau***	WAMN4
■ ***Treuliau a dalwyd gennych chi***	WAMN4
● Cymorth ysgrifenyddol a chlercaidd, a chymorth ymchwil	WAMN4
● Treuliau swyddfa	WAMN4
● Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf	WAMN4
■ ***Darparu pensiwn***	WAMN5

TAFLENNI CYMORTH A THAFLENNI

Mae Taflenni Cymorth a thaflenni sy'n rhoi rhagor o fanylion am reolau treth penodol ar gyfer Tudalennau'r Cynulliad ar gael o'r Llinell Archebu:

- *IR125: Defnyddio eich car neu eich beic modur eich hun ar gyfer gwaith*
- *IR204: Cyfandaliadau a thaliadau iawndal*
- *IR206: Lwfansau cyfalaf ar gyfer cyflogeion a deiliaid swydd**
- *Llyfryn 480: Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth*

** amgaeir copi gyda'r Nodiadau hyn*

Llenwi Tudalennau'r Cynulliad

Defnyddir y gair 'swydd' yn y Nodiadau hyn i gynnwys y swydd a ddelir fel Aelod o'r Cynulliad, neu fel Aelod a Gweinidog y Cynulliad. Mae 'P11D' hefyd yn golygu P11D, P9D neu'r wybodaeth gyfatebol.

Dim ond eich incwm o'r Cynulliad a gwmpesir gan Dudalennau'r Cynulliad: gwnewch yn siŵr eich bod hefyd yn cwblhau Tudalennau eraill sy'n briodol i'ch amgylchiadau.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, er enghraifft:

- eich P60, ffurflen Swyddfa Ffioedd sy'n dangos manylion y cyflog a threth am y flwyddyn
- eich Hysbysiadau Cod (P2) ar gyfer 2000-2001 a 2001-2002
- ffurflen P11D neu ddatganiad cyfatebol gan y Swyddfa Ffioedd sy'n rhoi manylion am unrhyw fuddiannau a threuliau a gawsoch yn ystod y flwyddyn
- derbynebion ar gyfer unrhyw wariant caniataol a wariwyd gennych
- unrhyw un o'r Taflenni Cymorth y credwch y bydd eu hangen arnoch.

Seiliwyd y Tudalennau Cynulliad hyn ar y Tudalennau Cyflogaeth. Fodd bynnag, bydd angen llai o flychau, felly mae rhifau rhai blychau ar goll.

Os oeddech yn dal swydd ar 5 Ebrill 2001

Dylai eich P60 ddangos cyfanswm y cyflog a'r dreth a gawsoch o'ch swydd (yn ogystal ag o gyflogaethau blaenorol yn ystod y flwyddyn). Dylai eich P45 (Rhan 1A), os cawsoch un, ddangos cyflog hefyd o gyflogaethau blaenorol. Peidiwch â chynnwys yn Nhudalennau'r Cynulliad unrhyw symiau ar eich P60, neu P45 (Rhan 1A) sy'n ymwneud â chyflogaeth heblaw symiau o'ch swydd fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad.

Os oeddech yn Aelod o'r Cynulliad

Llenwch **un** copi o Dudalennau'r Cynulliad.

Os gwnaethoch ddal swydd fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad a swydd neu gyflogaeth nad oedd yn gysylltiedig â'r Cynulliad ar yr un pryd

Llenwch eich Tudalennau Cynulliad ar gyfer eich incwm o'r Cynulliad. Llenwch set o Dudalennau Cyflogaeth ar wahân ar gyfer pob cyflogaeth nad yw'n gysylltiedig â'r Cynulliad y cawsoch unrhyw incwm ohoni.

Manylion am y swydd

blychau 1.3, 1.4 ac 1.6 Rhowch y dyddiadau y daethoch yn Aelod neu'n Weinidog y Cynulliad neu'r dyddiad y gwnaethoch roi'r gorau i fod yn Aelod neu'n Weinidog y Cynulliad os yw'r dyddiadau hyn rhwng 6 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2001. Ticiwch flwch 1.6 os daliasoch swydd weinidogaethol yn ystod y cyfnod hwn.

Incwm o'r swydd

■ Arian

blychau 1.8 ac 1.10 Yn y blychau rhowch yr arian a gawsoch fel Aelod o'r Cynulliad neu fel Gweinidog.

Bydd eich P60 yn dangos ffigurau ar gyfer cyflog a threth sy'n deillio o'r swydd yr oeddech yn ei dal ar 5 Ebrill 2001. Os cawsoch fwy nag un swydd neu os oeddech yn ddi-waith yn ystod y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2001, gall y ffurflen hefyd gynnwys ail gyfres o fanylion cyflog a threth ar gyfer eich swyddi blaenorol ac unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dâl Analluogrwydd trethadwy a gawsoch. Caiff y manylion ar gyfer swyddi blaenorol neu Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dâl Analluogrwydd a gafwyd eu hadio at ei gilydd yn y ffigurau ar eich P60. Felly efallai y bydd angen i chi gyfeirio at gofnodion eraill (megis slipiau cyflog, ffurflenni P45(Rhan 1A), neu ddatganiadau o fuddiant trethadwy) i weithio allan:

- y ffigurau ar gyfer cyflog o'r swyddi cynharach i'w cynnwys ymhob copi o Dudalennau'r Cynulliad a gwblhewch (un ar gyfer pob swydd); a
- y ffigurau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dâl Analluogrwydd i'w cynnwys ar dudalen 4 ar eich Ffurflen Dreth. Gwnewch yn siwr nad ydych yn cynnwys ffigurau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dâl Analluogrwydd yn Nhudalennau'r Cynulliad (neu unrhyw gopïau o'r Tudalennau Cyflogaeth a lenwir gennych).

Eglurir rhai o'r eitemau mwy cyffredin i'w cynnwys yn yr adran ar 'Daliadau arian' ar dudalen WAMN2. Os cawsoch eitem neu daliad mewn cysylltiad â'ch swydd ac nid ydych yn siwr a ddylech ei gynnwys, cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth am gyngor.

Rheol gyffredinol

Dylech gynnwys yr holl incwm a gawsoch yn ystod y flwyddyn.
Dylai'r symiau a roddwch ym mlychau 1.8 ac 1.10 gynnwys yr **holl** incwm a gawsoch yn y flwyddyn dreth 2000-2001 fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad hyd yn oed os gwnaethoch ei ennill mewn blwyddyn dreth gynharach neu os cawsoch eich talu am waith nad ydych wedi'i wneud eto.

Cewch eich trin fel petaech wedi cael yr incwm hwn ar y dyddiad cynharaf o blith yr isod:

- y dyddiad pan wnaed y taliad, neu'r taliad ar gyfrif, **neu**
- y dyddiad y cawsoch yr hawl i gael eich talu.

Mae hyn yn wir hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, neu os na chawsoch unrhyw daliad gwirioneddol am eich bod wedi trefnu i'r swm a oedd yn ddyledus i chi gael ei ddefnyddio mewn rhyw ffordd arall.

• Taliadau arian

Ar gyfer pob eitem mae'n rhaid i chi roi'r swm **cyn** didynnu unrhyw dreuliau yr ydych yn dymuno gwneud cais amdanynt.
Y taliadau arian y dylech eu cynnwys ym mlychau 1.8 ac 1.10 yw:

- eich cyflog fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad (blwch 1.8)
- tâl salwch statudol a thâl mamolaeth statudol heblaw pan gewch eich talu gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol (blwch 1.8)
- taliadau oddi wrth drydydd partïon pan wneir y taliad fel gwobr am wasanaethau a roddwyd yn rhinwedd eich swydd fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad (blwch 1.10)
- taliadau a gawsoch oddi wrth drydydd partïon am wasanaethau sydd eto i'w rhoi yn rhinwedd eich swydd fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad (blwch 1.10).

Eitemau na ddylech eu cynnwys ym mlychau 1.8 ac 1.10 yw:

- buddiannau a thaliadau treuliau a gawsoch - dylid cynnwys y rhain ym mlychau 1.13 i 1.23
- cyfandaliadau a dalwyd mewn cysylltiad â therfynu swydd, ymddeoliad neu farwolaeth. Rhowch y rhain ym mlychau 1.27 i 1.29
- taliadau a wnaed i Gynllun Pensiwn y Cynulliad.

Os ydych wedi cael cyfandaliad, er enghraifft, taliad colli gwaith, y mae'n rhaid i chi ei roi ym mlychau 1.24 i 1.29, **a** chafodd y taliad ei drethu a'i gynnwys yn y ffigurau cyflog a threth ar eich P45, gwnewch yn siwr eich bod yn ei ddidynnu o'r ffigur a roddwch ym mlwch 1.8.

• Treth a ddidynnwyd

blwch 1.11 Rhowch ym mlwch 1.11 swm unrhyw dreth a ddidynnwyd o'r symiau a ddangosir ym mlychau 1.8 ac 1.10.

Defnyddiwch ffigur y P60 neu'r P45(Rhan 1A) ar gyfer blwch 1.11 hyd yn oed os byddwch wedi gwneud addasiad ym mlwch 1.8 oherwydd bod angen i chi gwblhau blychau 1.24 i 1.29.

■ *Buddiannau, treuliau a thaliadau mantoli*

Mae'n ofynnol i'r Swyddfa Ffioedd anfon manylion am yr holl fuddiannau a roddwyd i chi oherwydd eich swydd i Gyllid y Wlad. Maent hefyd yn rhoi manylion am y treuliau trethadwy a dalwyd i chi. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn rhoi'r manylion i chi.

Ni fydd y manylion a gewch yn cynnwys unrhyw eitemau y mae gan y Swyddfa Ffioedd **oddefeb** ar eu cyfer. Ni fydd angen i chi gyfeirio at yr eitemau hyn. (Trefniant yw **goddefeb** y bydd y Swyddfa Ffioedd wedi'i wneud efallai ar y cyd â swyddfa Cyllid y Wlad. Bydd yn eich arbed rhag cynnwys buddiant neu daliad treuliau fel incwm a gewch fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad a gwneud cais cyfatebol wedyn ar gyfer y treuliau caniataol a gaiff eu talu gennych.)

• Costau Teithio'r Teulu

blwch 1.13 Mae eich incwm o'r Cynulliad yn cynnwys costau teithio'r teulu a delir gan y Swyddfa Ffioedd. Pan fyddwch wedi defnyddio'r lwfans ar gyfer teithiau'r teulu, bydd y Swyddfa Ffioedd yn rhoi gwybod i swyddfa Cyllid y Wlad a chi am gost y teithiau. Mae holl gostau teithio'r teulu yn incwm trethadwy.

Nodwch ym mlwch 1.13 y ffigur ar gyfer costau teithio'r teulu a hysbyswyd i chi gan y Swyddfa Ffioedd. Os credwch fod y ffigur hwn yn cwmpasu rhywfaint o gostau teithio busnes caniataol (er enghraifft, aeth eich priod ar daith yn rhinwedd ei swydd fel eich ysgrifennydd neu ymchwilydd), gallwch wneud cais ym mlwch 1.32 am y swm sy'n gysylltiedig â theithiau busnes. Os hoffech eglurhad pellach cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth.

• Llety ac eithrio Lwfans Costau Byw Ychwanegol

blwch 1.14 Bydd eich incwm o'r Cynulliad yn cynnwys gwerth unrhyw lety a gwasanaethau ategol (er enghraifft, gwres, golau, glanhau) a gewch chi (neu eich teulu neu dyaid) oherwydd eich swydd fel Aelod o'r Cynulliad. (Dylid dangos unrhyw lety sydd gennych oherwydd swydd neu gyflogaeth arall ar Dudalennau ar wahân sy'n cwmpasu'r swydd neu'r gyflogaeth honno). Fodd bynnag, bydd gwerth rhai mathau o letyau wedi'u heithrio rhag treth, er enghraifft, os bydd bygythiad arbennig i'ch diogelwch a darperir y llety fel rhan o drefniadau diogelwch arbennig. Os ydych wedi cytuno â'ch swyddfa Cyllid y Wlad bod eich llety wedi ei eithrio yna, oni fydd amgylchiadau wedi newid, peidiwch â rhoi unrhyw beth ym mlwch 1.14 ar gyfer gwerth yr eiddo. Fodd bynnag, codir treth ar y gwasanaethau ategol. Cyfyngir hyn fel arfer i 10% o gyflog y swydd dan sylw. Rhowch y gwerth hwn ym mlwch 1.14.

• Lwfansau milltiroedd - defnyddio'ch cludiant eich hun ar gyfer busnes Deddfwriaethol y Cynulliad

blwch 1.15 Os bydd y Swyddfa Ffioedd yn talu lwfans i chi am ddefnyddio eich cludiant eich hun ar gyfer busnes y Cynulliad, efallai y bydd y symiau a gewch yn fwy na chost y teithiau. Bydd y swm ychwanegol yn elw trethadwy. Rhowch y ffigur hwn ym mlwch 1.15. Os bydd y swm a gewch yn llai na chostau eich teithiau, gallwch wneud cais am ryddhad treth ar gyfer y gwahaniaeth drwy ei gynnwys ym mlwch 1.35.

Os ydych yn defnyddio'ch car eich hun, dylai'r Swyddfa Ffioedd roi ffigwr elw i chi yn seiliedig ar gyfraddau milltiroedd di-dreth awdurdodedig Cyllid y Wlad. Gallwch roi'r ffigur hwn ym mlwch 1.15.

Os ydych yn defnyddio'ch beic modur neu'ch beic eich hun, dylai'r Swyddfa Ffioedd roi manylion y lwfansau milltiroedd a dalwyd i chi. Cewch ddefnyddio cyfraddau milltiroedd awdurdodedig Cyllid y Wlad (24c a 12c y filltir yn ôl eu trefn) i gyfrifo costau eich siwrnai ac, felly, a oes elw trethadwy neu a allwch wneud cais am ryddhad treth.

Os:

- rydych am weithio swm unrhyw elw neu ryddhad trethadwy allan ar sail y lwfansau a gawsoch a'r costau gwirioneddol yn sgîl defnyddio eich car eich hun ar fusnes y Cynulliad, **neu**
- os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch,

gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen *IR125: Defnyddio eich car neu eich beic modur eich hun ar gyfer gwaith.*

Caiff Lwfansau Milltiroedd a delir gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer teithiau preifat, boed mewn car, ar feic modur neu ar feic, eu trethu a'u cynnwys yn y cyfanswm ar eich P60 ar ddiwedd y flwyddyn. Ni fydd angen i chi gynnwys unrhyw beth ar gyfer y teithiau preifat hyn ym mlwch 1.15.

- Lwfans Costau Swyddfa: eitemau digyfalaf

blwch 1.16 Efallai y derbyniwch symiau oddi wrth y Swyddfa Ffioedd i'ch ad-dalu am dreuliau a dalwch wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad am redeg swyddfa neu am gymorth ysgrifenyddol ac ymchwil. Mae'r holl symiau hyn yn drethadwy. (Gwnewch gais am unrhyw dreuliau a ganiateir at ddibenion treth drwy lenwi blychau 1.32 i 1.35).

Rhowch y swm a gafodd ei ad-dalu neu ei dalu i chi, neu ar eich rhan, gan y Swyddfa Ffioedd am dreuliau cynnal eich swyddfa o ddydd i ddydd ym mlwch 1.16. Dylai'r Swyddfa Ffioedd roi manylion i chi. Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau ar gyfer prynu cyfarpar swyddfa ym mlwch 1.16 gan mai cyfalaf yw hyn - defnyddiwch flwch 1.17 yn hytrach.

Ymhlith yr enghreifftiau o symiau i'w cynnwys ym mlwch 1.16 mae'r pethau hynny a gewch sy'n cwmpasu:

- treuliau swyddfa - pethau o ddydd i ddydd megis gwres, golau, ffôn, post, deunydd swyddfa
- cymorth ysgrifenyddol ac ymchwil - cyflog, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr, taliadau i gynorthwywyr achlysurol.

Peidiwch â chynnwys fel incwm symiau a dalwyd gan y Swyddfa Ffioedd fel cyfraniad tuag at y pensiynau ar gyfer ysgrifenyddion a chynorthwywyr ymchwil. Peidiwch ychwaith â gwneud cais am lwfans ar gyfer y symiau hyn. Mae'r symiau yn drethadwy ac yn ganiatáol mewn symiau tebyg ac mae Cyllid y Wlad wedi cytuno nad oes angen eu rhoi ar eich Ffurflen Dreth.

- Lwfans Costau Swyddfa: eitemau cyfalaf

blwch 1.17 O dan reolau'r Lwfans Costau Swyddfa, gall y Swyddfa Ffioedd ad-dalu cost cyfarpar swyddfa i chi megis prosesydd geiriau, cyfrifiadur personol neu ffôn symudol. Cewch eich trethu ar y swm hwn a ad-delir. Rhowch unrhyw symiau a gafodd ei ad-dalu i chi neu a dalwyd ar eich rhan ar gyfer cyfarpar swyddfa a brynwyd yn ystod y flwyddyn ym mlwch 1.17. Dylai'r Swyddfa Ffioedd roi'r manylion i chi. (Os byddwch am wneud cais am lwfansau cyfalaf llenwch flwch 1.35).

- Lwfans Arweinwyr Plaid

blwch 1.18 Os ydych, fel Arweinydd Plaid, yn derbyn taliad oddi wrth y Swyddfa Ffioedd, mae'n drethadwy fel eich incwm (yn yr un modd â'r Lwfans Costau Swyddfa).

Rhowch y swm a gawsoch ym mlwch 1.18. (Gallwch wneud cais am unrhyw dreuliau caniatáol a dalwch wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Arweinydd Plaid ar Dudalen WAM2).

Fodd bynnag, os yw'r lwfans wedi cael ei ddefnyddio i brynu offer, bydd rhaid gwneud cais am ryddhad ar gyfer y symiau a dalwyd ym mlwch 1.35.

- Ad-daliadau arian parod eraill

blwch 1.19 Rhowch unrhyw ad-daliadau a wnaeth y Swyddfa Ffioedd i chi am gostau hurio ceir, tacsis neu unrhyw ad-daliad trethadwy nas nodwyd yn rhywle arall yn y Tudalennau hyn ym mlwch 1.19. Gallwch wneud cais am unrhyw ryddhad treth ar gyfer y taliadau hyn ym mlychau 1.32 i 1.35.

- Pob buddiant arall

blwch 1.22 Dylai'r Swyddfa Ffioedd fod wedi rhoi'r manylion i chi am y buddiannau eraill. (Y rhai y soniwyd amdanynt ym mlychau 1.13 i 1.19 yw'r rhai mwyaf cyffredin). Rhowch gyfanswm arian parod sy'n gyfwerth ag unrhyw fuddiannau eraill a gewch fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad na soniwyd amdanynt yn benodol yn rhywle arall ym mlwch 1.22.

Cyfwerth mewn arian buddiannau eraill

Pennir cyfwerth mewn arian mewn ffyrdd gwahanol, yn ôl y math o fuddiant.

Asedion (heblaw tir a cherbydau modur) a ddarperir at ddefnydd preifat

Pan fydd yr ased wedi bod ar gael drwy gydol y flwyddyn bydd y cyfwerth mewn arian fel arfer yn seiliedig ar:

- 20% o'i werth ar y farchnad pan gafodd ei ddefnyddio gyntaf i ddarparu buddiant **plws**
- treuliau (heblaw cost ei gaffael) a dalwyd mewn cysylltiad ag ef na fyddai wedi cael eu talu oni ddarparwyd y buddiant.

Ond os bydd y cyfanswm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un cyflogai bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran o'r swm cyfan. Gostyngir y cyfwerth mewn arian gan unrhyw swm a ad-dalwyd i'r darparwr yn gyfnewid am y buddiant. Am ragor o wybodaeth, gofynnwch i'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth.

Pob buddiant arall

Y cyfwerth mewn arian fel arfer fydd cost y buddiant i'r person a'i darparodd (*minws* unrhyw swm a ad-dalwyd i'r darparwr). Y gost hon yw'r swm y byddai'r darparwr wedi ei arbed pe na bai'r buddiant wedi cael ei ddarparu. Ond os bydd y swm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un cyflogai bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran o'r swm cyfan. Am ragor o wybodaeth gweler llyfryn 480, *Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Gwnewch yn siwr eich bod yn cynnwys buddiant car, neu gar a thanwydd a oedd ar gael i chi yn rhinwedd eich swydd fel Aelod o'r Cynulliad ym mlwch 1.22. Peidiwch â chynnwys buddiant car, neu gar a thanwydd, neu fuddiannau eraill a oedd ar gael i chi yn rhinwedd swydd neu gyflogaeth nad oedd yn gysylltiedig â'r Cynulliad ym mlwch 1.22. Rhowch y buddiant ar y gyfres briodol o'r Tudalennau Cyflogaeth a lenwir gennych.

Rhestrir rhai o'r buddiannau mwyaf cyffredin yn y Daflen Waith isod er mwyn eich helpu i bennu cyfanswm ar gyfer blwch 1.22.

Taflen Waith ar gyfer blwch 1.22

Asedion a ddarparwyd at ddefnydd preifat		£
Ffôn(au) cartref		£
Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol		£
Nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd		£
Lleoedd mewn meithrinfa a ddarparwyd (o dan rai amgylchiadau **nid** yw'r buddiant hwn yn drethadwy - gweler llyfryn 480)		£
Cymorth addysgol a ddarparwyd (o dan rai amgylchiadau **nid** yw'r buddiant hwn yn drethadwy - gweler llyfryn 480)		£
Pob buddiant arall	£	
Cyfanswm	A	£

Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 1.22 yn Nhudalennau'r Cynulliad.

- Taliadau mantoli

blwch 1.23 Pan fydd y Swyddfa Ffioedd yn ad-dalu cost prynu cyfarpar swyddfa i chi, neu'n talu ar eich rhan, bydd y symiau yn drethadwy.

Gallwch wneud cais am ryddhad treth ar gyfer dibrisiant blynyddol cyfarpar y mae angen i chi ei ddefnyddio wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad. Gelwir y rhyddhad hwn yn 'lwfansau cyfalaf'. Weithiau, pan gaiff eitem o gyfarpar ei gwerthu neu ei rhoi yn rhodd, caiff peth o'r lwfansau cyfalaf eu hadennill. Gelwir hyn yn 'dâl mantoli'.

Ceir eglurhad manwl o'r modd y caiff lwfansau cyfalaf eu gweithio allan yn Nhaflen Gymorth *IR206: Lwfansau cyfalaf ar gyfer cyflogeion a deiliaid swyddi* ac amgaeir copi ohoni. Os bydd angen arweiniad pellach arnoch, gofynnwch i'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch cynghorydd treth.

Cyfandaliadau a thaliadau iawndal neu fuddiannau

blychau 1.24 i 1.29 Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i fathau gwahanol o gyfandaliadau sy'n gysylltiedig â'ch dyletswyddau fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad. Yn ystod 2000-2001, os cawsoch gyfandaliad neu daliad iawndal gan y Swyddfa Ffioedd megis, dyweder, Grant Adleoli, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth *IR204: Cyfandaliadau a thaliadau iawndal.* Bydd angen y daflen hon arnoch i lenwi blychau 1.24 i 1.30.

blwch 1.30 Rhowch swm unrhyw dreth a ddidynnwyd o gyfandaliadau a thaliadau iawndal ym mlwch 1.30.

Treuliau a dalwyd gennych chi

blychau 1.32 i 1.35 Mae'r adran hon yn egluro'r rheolau ar gyfer gwneud cais am dreuliau a dalwyd o reidrwydd wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad. Nodwch y gall y Swyddfa Ffioedd wneud taliadau ar eich rhan, nad ydynt yn gymwys am ryddhad treth.

'Goddefebau'

Peidiwch â chynnwys yn eich cais unrhyw dreuliau a dalwyd gennych os:

- gallwch wneud cais i'w hadennill oddi wrth y Swyddfa Ffioedd, **a**
- bydd **goddefeb** yn cwmpasu'r treuliau**.**

(Os ydych yn ansicr a oes gan y Swyddfa Ffioedd oddefeb dylech ofyn am fanylion. Gweler hefyd yr adran o dan y pennawd 'Buddiannau, treuliau a thaliadau mantoli' - ar dudalen WAMN2.)

Fodd bynnag, os ydy'ch gwariant gwirioneddol caniatáol yn fwy na'r swm y mae'r oddefeb yn ei gwmpasu efallai y gallwch hawlio didyniad am y swm sy'n fwy na'r oddefeb.

- Costau Teithio'r Teulu

blwch 1.32 Bydd y Swyddfa Ffioedd yn eich hysbysu chi a Chyllid y Wlad am gost teithiau a delir gan y Swyddfa Ffioedd ar ran aelodau'r teulu. Os credwch bod unrhyw un o'r costau yn gysylltiedig â theithiau busnes caniatáol (er enghraifft, aeth priod ar daith yn rhinwedd ei swydd fel eich ysgrifennydd neu ymchwilydd) dylech roi y swm y credwch sy'n gysylltiedig â theithiau busnes ym mlwch 1.32.

- Cymorth ysgrifenyddol a chlercaidd, a chymorth ymchwil

blwch 1.33 Gallwch wneud cais am dreuliau cyflogi cynorthwywyr ysgrifenyddol, clercaidd ac ymchwil y mae'n rhaid i chi eu talu wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad. Bydd y cais fel arfer yn gyfwerth â swm eich Lwfans Costau Swyddfa a ddefnyddir ar gyfer y treuliau staff hyn. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn rhoi'r manylion i chi.

Rhowch swm y taliadau i:

- cynorthwywyr ysgrifenyddol neu glercaidd; **a**
- cynorthwywyr ymchwil

yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' blwch 1.40 ar Dudalen WAM2, **ar wahân**.

Adiwch y symiau hyn gan roi'r cyfanswm ym mlwch 1.33.

Mae'r taliadau hyn yn cynnwys taliadau a wnaethoch o'ch arian eich hun, neu o'r Lwfans Arweinwyr Plaid, a'r rheiny y rhoddodd y Swyddfa Ffioedd wybod amdanynt i chi.

Ni all cyfanswm y treuliau fod yn fwy na'r incwm o'ch swydd gan gynnwys taliadau o'r Lwfans Arweinwyr Plaid a thaliadau y rhoddodd y Swyddfa Ffioedd wybod amdanynt i chi.

- Treuliau swyddfa

blwch 1.34 Rhowch y cyfanswm a wariwyd yn ystod y flwyddyn ar redeg eich swyddfa o ddydd i ddydd, er enghraifft, ar wres, golau, ffôn, post a deunydd swyddfa ym mlwch 1.34. Bydd y ffigur yn aml yn cyfateb i'r symiau a dalwyd i chi neu ar eich rhan gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer y mathau hynny o eitemau. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn rhoi'r manylion i chi.

Yn ystod y flwyddyn, os ydych wedi talu symiau heblaw drwy'r Swyddfa Ffioedd, rhowch gyfanswm y symiau hyn ym mlwch 1.34. Fodd bynnag, peidiwch â chynnwys unrhyw beth ym mlwch 1.34 sydd yn ymwneud mewn unrhyw ffordd ag eiddo yr ydych wedi gwneud cais amdano i'r Swyddfa Ffioedd am Lwfans Costau Byw Ychwanegol.

- Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf

blwch 1.35 Rhowch swm y:

- treuliau 'eraill'; **a**
- lwfansau cyfalaf.

yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' blwch 1.40 ar Dudalen WAM2, **ar wahân.**

Adiwch y symiau hyn gan roi'r cyfanswm ym mlwch 1.35.

Treuliau eraill

Dim ond y treuliau angenrheidiol a dalwch wrth wneud eich gwaith fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad y gallwch wneud cais amdanynt. Treuliau angenrheidiol yw'r rheiny y byddai pob person sy'n gwneud eich gwaith yn gorfod eu talu. Mae'n rhaid i'r treuliau hynny gael eu talu wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd mewn gwirionedd. Felly, er enghraifft, nid yw treuliau sy'n eich galluogi i wneud eich swydd, yn hytrach na thalu amdanynt wrth gyflawni eich swydd mewn gwirionedd, yn rhai caniatáol.

Trafodwyd y rhan fwyaf o'r treuliau y gallwch wneud cais amdanynt yn gynharach. Mewn achosion eithriadol, efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am dreuliau eraill a dalwch wrth gyflawni eich dyletswyddau, er enghraifft, taliadau a roesoch ym mlwch 1.19 ac sy'n bodloni'r amodau bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth. Efallai y byddwch wedi cytuno ar geisiadau gyda Chyllid y Wlad ar eitemau eraill yn y gorffennol. Os felly, dylech gyfrifo swm y treuliau caniatáol ar y sail gytûn. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r hyn y mae gennych hawl efallai i wneud cais amdano dylech gysylltu â'ch swyddfa Cyllid y Wlad am gymorth **cyn** llenwi blwch 1.35.

Lwfansau cyfalaf

Bydd lwfansau cyfalaf fel arfer ar gael ar gost cyfalaf cyfarpar y mae'n rhaid i chi ei ddarparu i'w ddefnyddio wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad. Mae Taflen Gymorth *IR206: Lwfansau cyfalaf ar gyfer cyflogeion a deiliaid swydd* yn dweud wrthych sut y cânt eu cyfrifo. Amgaeir copi.

Os byddwch yn dechrau defnyddio eitem ar gyfer eich dyletswyddau fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad yn ystod y flwyddyn, neu'n rhoi'r gorau i'w defnyddio, caiff y lwfansau cyfalaf eu cyfrifo fel pe baech wedi prynu neu werthu'r eitem ar y dyddiad hwnnw. Y swm a ddefnyddir wrth gyfrifo eich lwfansau ar gyfer eitemau o'r fath yw gwerth y farchnad ar y dyddiad hwnnw.

Os ymdrinnir â'ch costau cerbyd modur o dan y Cynllun Elw Penodedig Car (FPCS) ym mlwch 1.15, peidiwch â gwneud cais am lwfansau cyfalaf ar gyfer y car hwnnw - mae'r FPCS eisoes yn cynnwys rhyddhad. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud cais am ryddhad treth ar sail costau gwirioneddol yn sgîl defnyddio eich car eich hun ar fusnes y Cynulliad, gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf. Mae taflen *IR125: Defnyddio eich car neu eich beic modur eich hun ar gyfer gwaith* yn egluro sut i wneud hyn.

Darparu pensiwn

Daw eich cyflog fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad o fewn y cynllun pensiwn ffurfiol a weinyddir gan y Swyddfa Ffioedd. Felly (oni bai nad ydych yn perthyn i'r cynllun) ni fyddwch yn gallu gwneud cais am ryddhad ar gyfer taliadau blwydd-dâl ymddeol neu gyfraniadau pensiwn personol mewn perthynas â'r incwm hwn.

Mae'r Swyddfa Ffioedd yn gweinyddu Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol drwy Equitable Life ar ran yr Aelodau. Rhoddir rhyddhad ar gyfer cyfraniadau a wneir i'r cynlluniau hyn drwy ddidynnu symiau a delir o'r cyflog cyn codi treth. Felly, ni fydd angen gwneud cais am y cyfraniadau hyn. Os bydd angen help arnoch, bydd y Swyddfa Ffioedd yn gallu eich cynghori.

Terfyn ar gyfraniadau

Mae'n rhaid i'ch cyfraniadau i bob cynllun a grybwyllwyd yma, beidio, gyda'i gilydd, â mynd y tu hwnt i derfyn enillion o 15% (hyd at derfyn enillion o £91,800 mewn rhai achosion).

Cynlluniau buddiannau ymddeol cyflogwyr

Os penderfynwch wneud cyfraniad cyfandaliad i'r Swyddfa Ffioedd yna, ar yr amod nad yw'r cyfraniad yn mynd y tu hwnt i'r terfyn, rhowch ffigur y cyfandaliad ym mlwch 14.16 ar dudalen 5 ar eich Ffurflen Dreth. (Dim ond am daliadau sydd heb eu didynnu o'ch cyflog, cyn i chi ei dderbyn, a chyn i unrhyw dreth gael ei didynnu, y dylech wneud cais amdanynt).

Cynlluniau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd

Pan wneir y newidiadau priodol i'r Cynllun Pensiwn er mwyn caniatáu taliadau o'r fath byddwch yn gallu talu hyd at 15% o'ch cyflog fel Aelod neu Weinidog y Cynulliad (hyd at y terfyn enillion o £91,800 mewn rhai achosion), *minws* yr hyn a dalwyd gennych i gynlluniau eraill a grybwyllwyd uchod, i Gynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd (FSAVC). Cewch ryddhad yn awtomatig ar y gyfradd dreth sylfaenol ar y taliadau hyn pan fyddwch yn eu talu. Os cewch eich trethu ar y gyfradd uwch, bydd rhyddhad pellach ar gael. Rhowch swm gros y taliadau FSAVC ym mlwch 14.17 ar dudalen 5 ar eich Ffurflen Dreth: dyma'r swm a dalwyd gennych mewn gwirionedd i'ch darparwr FSAVC ynghyd â'r rhyddhad treth a ddidynnwyd gennych o'r taliad.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa dreth ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.